# ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH ADDYSGOL ARBENNIG YN LLANELLI, CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

David Davies, Ymgynghorydd Annibynnol

Ionawr 2025

**CYNNWYS**


| Adran | Ffocws | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Ffynonellau gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid | 3 |
| 3. | Dull y Cyngor o Ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 4 |
| 4. | Y ddarpariaeth ADY bresennol a'r pwysau ar y ddarpariaeth honno | 7 |
| 5. | Yr opsiynau sy'n cael eu hystyried | 15 |
| 6. | Opsiwn 1: Adnewyddu'r ysgol bresennol | 15 |
| 7. | Opsiwn 2: Adolygu a diwygio'r cynigion cyfredol i adeiladu ysgol arbennig newydd sydd â'r un nifer o leoedd (120 o ddisgyblion) ond sydd â dyluniad mwy cost-effeithiol | 17 |
| 8. | Opsiwn 3: Adolygu a diwygio'r cynigion cyfredol i adeiladu ysgol arbennig newydd sydd â mwy o leoedd (150 o ddisgyblion) | 20 |
| 9. | Opsiwn 4: Adolygu a diwygio'r cynnig cyfredol a'i ailddylunio i gynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion â chyflyrau sbectrwm awtistig (CSA) sydd â mwy o leoedd (250 o ddisgyblion) | 21 |
| 10. | Opsiwn 5: Datblygu cynigion newydd i adeiladu un Ganolfan Arbenigol gynradd ac un Ganolfan Arbenigol uwchradd ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol (ADD), anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl) ac anhwylder sbectrwm awtistig | 22 |
| 11. | Opsiwn 6: Adolygu a diwygio'r cynigion cyfredol i adeiladu ysgol arbennig newydd sydd â mwy o leoedd (Opsiwn 3) a datblygu cynigion newydd i adeiladu un Ganolfan Arbenigol gynradd ac un Ganolfan Arbenigol uwchradd ar gyfer disgyblion â chyflyrau sbectrwm awtistig (CSA) | 24 |
| 12. | Casgliad | 27 |

**1.Cyflwyniad**

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi barn annibynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin a'r Cyfarwyddwr Addysg am yr opsiynau posibl ar gyfer darpariaeth arbenigol yn Llanelli.

Mae gan y Cyngor ystod o ddarpariaethau arbenigol wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sylweddol ar draws y Sir ac mae'r rhain wedi'u nodi yn Nhabl 1 ar dudalen 7 isod. Mae ganddo un ysgol arbennig, sef Ysgol Heol Goffa, sydd wedi'i lleoli yn Llanelli.

Sefydlwyd Ysgol Heol Goffa ar ddechrau'r 1970au ac ers hynny mae wedi datblygu'n ysgol arbennig lwyddiannus iawn. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017, ac ar yr adeg hon rhoddwyd sgôr Rhagorol iddi am ei pherfformiad, a rhagolygon Rhagorol ar gyfer gwella. Nododd arolygiad Estyn o Ysgol Heol Goffa fod yr addysgu yn yr ysgol yn rhagorol a bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd unigol.

Mae'r ysgol yn cael ei chefnogi'n dda iawn gan gymuned Llanelli, sydd yn amlwg yn falch iawn o'r ysgol. Mae gan rieni/gofalwyr barch mawr tuag at yr ysgol ac maent yn canmol y lleoliad a'r staff am eu hymagwedd gefnogol, ofalgar ac empathig. Mae rhieni/gofalwyr wedi dweud bod lleoli eu plant yn yr ysgol 'wedi newid eu bywydau'.

Mae pryderon wedi bod am safon yr adeiladau yn Ysgol Heol Goffa ers blynyddoedd lawer. Er gwaethaf yr arolwg hynod gadarnhaol gan Estyn yn 2017, nododd yr adroddiad fod yr amgylchedd dysgu yn 'ddigonol' a bod 'ardaloedd yn adeilad yr ysgol yn cyfyngu ar ystod y cyfleoedd dysgu y gellir eu cynnal ar y safle yn sylweddol'. Cafodd diffygion adeiladau'r ysgol eu cydnabod gan Arweinydd y Cyngor ar y pryd, a gyhoeddodd yn fuan wedi'r arolygiad y byddai ysgol arbennig newydd yn cael ei hadeiladu i gymryd lle Ysgol Heol Goffa.

Ym mis Medi 2020 dechreuwyd ymgynghoriad statudol yn unol â dogfen statudol Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 011/2018 mewn perthynas â chynnig i symud Ysgol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120. Gwnaed penderfyniad gan y Cyngor Sir ym mis Mai 2021 i gymeradwyo'r cynnig fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori a'r hysbysiad statudol.

Yn dilyn y penderfyniad hwn, cynhaliwyd nifer o weithdai gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod pob grŵp a oedd yn cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu at ddylunio'r ysgol newydd. O ganlyniad, dyluniwyd yr ysgol newydd arfaethedig gyda'r

ansawdd a'r fanyleb uchaf mewn golwg, ac roedd y dyluniad arfaethedig yn ddeniadol iawn o safbwynt pensaernïol ac esthetaidd.

Roedd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyllid ar gyfer y cynllun drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r rhaglen hon, ac yn amodol ar i'r Cyngor symud ymlaen yn llwyddiannus drwy fodel busnes pum achos Llywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth, y cyfraddau ymyrryd oedd 75% drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru a byddai'r Cyngor yn ariannu'r 25% oedd yn weddill. Symudodd y cynllun ymlaen yn llwyddiannus wedyn drwy fodel busnes pum achos Llywodraeth Cymru, a dim ond yr Achos Busnes Llawn oedd angen ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gytuno arno.

Cyn cyflwyno'r achos busnes terfynol, cynhaliodd y Cyngor broses dendro i nodi contractwr addas i adeiladu'r ysgol newydd. Yn anffodus, dim ond un tendr ddaeth i law, ac roedd y costau adeiladu a nodwyd yn y dyfynbris yn sylweddol uwch na'r disgwyl. O ganlyniad, cyhoeddodd y Cyngor ym mis Mai 2024, o ystyried yr hinsawdd economaidd a'r pwysau ariannol digynsail oedd yn wynebu'r awdurdod lleol, nad oedd y cynnig i adeiladu ysgol arbennig newydd i gymryd lle Ysgol Heol Goffa bellach yn hyfyw yn ariannol.

Roedd y penderfyniad hwn yn destun siom enfawr i'r holl randdeiliaid ac ymrwymodd y Cyngor i archwilio opsiynau eraill ar gyfer cynnig darpariaeth arbenigol o ansawdd uchel i ddisgyblion ag ADY yn Llanelli. Yn unol â'r nod hwn, comisiynwyd adroddiad annibynnol gan y Cyngor i adolygu opsiynau posibl i'w hystyried gan uwch-swyddogion a'r Cabinet.

## 2. Ffynonellau gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau dros gyfnod o bedwar mis rhwng Medi 2024 a Rhagfyr 2024. Mae'r rhain yn cynnwys trafodaethau gyda rhanddeiliaid amrywiol megis:

- Aelodau Etholedig y Cyngor, gan gynnwys Arweinydd y Cyngor
- Cynghorwyr Lleol yn cynrychioli Llanelli
- Swyddogion yr awdurdod lleol, gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant presennol a blaenorol, y Pennaeth Addysg a Chynhwysiant, Rheolwr ADY, Rheolwr Cynorthwyol ADY, Rheolwr Trawsnewid a Newid Ysgolion a Swyddog Prosiect Datblygu Ysgolion
- Penaethiaid ar draws ystod eang o leoliadau arbenigol ac ysgolion prif ffrwd
- Cynrychiolwyr yr undebau llafur
- Gweithwyr iechyd proffesiynol
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Uwch-arweinwyr Ysgol Heol Goffa

- Corff Llywodraethu Ysgol Heol Goffa
- Staff Ysgol Heol Goffa
- Disgyblion Ysgol Heol Goffa
- Partneriaid Cymunedol Ysgol Heol Goffa

Mae ymweliadau â darpariaethau arbenigol ledled Sir Gaerfyrddin hefyd wedi cael eu cynnal sydd hefyd wedi cynnwys trafodaethau gyda staff ac uwch-arweinwyr yn y darpariaethau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ysgol Heol Goffa
- Uned Myrddin
- Canolfan yr Enfys
- Canolfan Elfed
- Canolfan Cothi
- Canolfan Amanwy
- Y Pwll, Uned Cyflyrau Sbectrwm Awtistig (CSA)
- Canolfan y Bedol
- Canolfan y Felin
- Canolfan y Môr

Mae dogfennau a data a gedwir gan yr awdurdod lleol hefyd wedi cael eu dadansoddi. Roedd hyn yn cynnwys:

- Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Sir Gaerfyrddin 2023
- Cynnig Lleol Sir Gaerfyrddin ar gyfer ADY
- Meini prawf ar fynediad i a gadael lleoliadau arbenigol: 2023
- Data am y galw am leoliadau arbenigol a'u capasiti
- Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Ysgol Heol Goffa (Mai 2024)
- Arolygon Cyflwr Adeiladau ar gyfer Ysgol Heol Goffa (Mai 2024)
- Datganiad Gweithredol Tendr Ysgol Arbennig Newydd Heol Goffa (Mawrth 2024)

## 3. Dull y Cyngor o Ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd y Cyngor y Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n ymrwymo i "creu system addysg gwbl gynhwysol lle y caiff pob plentyn a pherson ifanc y cyfle i lwyddo ac i dderbyn addysg sy'n diwallu eu hanghenion".

Mae'r Strategaeth yn pwysleisio ymrwymiad i sicrhau, lle bynnag y bo modd, y dylai plant a phobl ifanc ag ADY gael mynediad i gyfleoedd dysgu sy'n briodol i'w hanghenion yn eu cymuned leol.

Mae'r strategaeth yn amlinellu model 4 cam i ddiwallu ADY yn y Sir
Cam 1. Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol ym mhob ysgol.
Cam 2. Mynediad i gyngor arbenigol gan wasanaethau cymorth canolog. Cymorth wedi'i dargedu a/neu Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol a ddarperir gan yr ysgol.
Cam 3. Lleoliadau arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dwys.
Cam 4. Pecynnau Pwrpasol Addysg Heblaw Mewn Ysgol a lleoliadau arbenigol preswyl

Mae Strategaeth ADY Sir Gaerfyrddin yn cyd-fynd â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018). Mae'r weledigaeth o ddatblygu arferion cynhwysol ym mhob ysgol brif ffrwd yng Nghymru wedi bod wrth wraidd y rhaglen diwygio addysgol.

Mae angen i'r gwaith o ddatblygu arferion cynhwysol fod yn brif ffocws i ysgolion ac awdurdodau lleol; bydd hyn yn sicrhau bod anghenion cynifer o blant â phosibl yn gallu cael eu diwallu'n llawn yn eu hysgol brif ffrwd leol o'u dewis. Os na fydd hyn yn llwyddiannus, bydd angen lleoliadau arbenigol ar fwy a mwy o ddisgyblion i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'n amlwg bod Cymru yn gweld cynnydd digynsail yn nifer y plant a'r bobl ifanc y nodwyd bod ganddynt ADY, ac mae'n hanfodol bod ein hysgolion yn cael eu cefnogi i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn yn effeithiol. Mae'n dra hysbys bod y cynnydd hwn mewn angen yn rhoi mwy o straen ar gyllid awdurdodau lleol ar gyfer addysg ac ysgolion.

Mae adroddiad thematig Estyn ar y system anghenion dysgu ychwanegol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024, yn gwerthuso cynnydd ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol ledled Cymru wrth gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nododd yr adroddiad, er bod ysgolion wedi dechrau'r broses hon, nad yw wedi'i datblygu'n dda ledled ysgolion yng Nghymru o bell ffordd.

Canfu Estyn y canlynol:

- Nid yw addysgu a dysgu pwrpasol wedi’u hanelu at ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn ddigon effeithiol
- Megis dechrau datblygu oedd cymorth ac arweiniad Awdurdodau Lleol i ysgolion i wella addysgu a dysgu cynhwysol.

Yn Sir Gaerfyrddin, fel mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae'r broses o ddatblygu arferion cynhwysol mewn ysgolion yn parhau. Bydd Cam 1 a Cham 2 y model 4 cam a amlinellir yn Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol y Sir yn darparu'r mecanwaith ar gyfer y gwaith datblygu hwn yn y dyfodol.

Yn ôl Estyn, profiad llawer o ddisgyblion a rhieni/gofalwyr plant ag ADY mewn ysgolion ledled Cymru yw nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu, ac yn rhy aml nid oedd disgyblion ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd yn cael cymorth priodol.

Un o ganfyddiadau allweddol Estyn oedd y diffyg darpariaeth arbenigol sydd ar gael mewn llawer o awdurdodau lleol. Oherwydd hyn, dywedodd Estyn bod "gormod o ddisgyblion ag anghenion cymhleth yn aros mewn lleoliadau prif ffrwd ac nid oeddent yn derbyn y cymorth arbenigol oedd ei angen arnynt".

Mae Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Sir Gaerfyrddin yn pwysleisio, os na ellir diwallu anghenion plentyn neu berson ifanc yn ei ysgol brif ffrwd leol, y dylai allu cael mynediad i leoliad mwy arbenigol sy'n diwallu ei anghenion, ac y dylai hyn fod yn ei gymuned lle bynnag y bo modd.

Mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo i raddau helaeth i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin na ellir diwallu eu hanghenion yn eu hysgol brif ffrwd leol yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth briodol yn eu hardal. Cafodd gwasanaethau addysg yn Sir Gaerfyrddin eu harolygu gan Estyn ym mis Gorffennaf 2023, a nododd yr adroddiad fod yr awdurdod yn cynnal amrywiaeth addas o ddarpariaeth arbenigol mewn unedau neu ysgolion arbennig, sy'n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Hefyd, nododd yr adroddiad, ar lefel strategol, fod uwch-swyddogion yn cynllunio darpariaeth arbenigol yn briodol ac wedi buddsoddi'n sylweddol mewn darpariaeth ychwanegol i gefnogi dysgwyr ag ADY yn dilyn cynnydd yn nifer y disgyblion â chyflyrau sbectrwm awtistig (CSA).

Nid oes amheuaeth nad yw'r awdurdod lleol wedi gwneud llawer iawn i ddatblygu darpariaeth ADY yn y Sir ac wedi sefydlu ôl troed helaeth o ddarpariaeth arbenigol ar draws pob ardal ddaearyddol. Fodd bynnag, mae pwysau parhaus sylweddol yn y system. Y pwysau mwyaf sylweddol a chynyddol sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd yw'r lefel uchel o angen mewn perthynas â phlant a phobl ifanc â CSA. Nid yn unig y rhai sydd wedi cael diagnosis ond y rhai sydd ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol sylweddol sy'n cael eu hasesu ond sydd heb gael diagnosis eto.

Bu cynnydd cyflym yn nifer y plant a'r bobl ifanc â CSA yn ystod y degawd diwethaf ledled Cymru a thu hwnt. Mae pob awdurdod lleol yn wynebu heriau enfawr o ran diwallu anghenion y grŵp cynyddol hwn o blant a phobl ifanc.

Bu pwyslais ym mhob awdurdod lleol ar ddatblygu capasiti ysgolion prif ffrwd i ddiwallu'r angen hwn, a heb os, dyma faes gwaith y bydd angen ei ddatblygu'n gyflym ledled Cymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw ysgolion yn gallu diwallu anghenion y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd â'r cyflwr hwn. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae ar ysgolion angen datblygu'r gweithlu ymhellach, mwy o gymorth gan

asiantaethau allanol a chyllid digonol sydd ar gael ar lefel ysgol i ymateb i'r galw cynyddol.

Mae hefyd yn bwysig nodi'r heriau y mae pob ysgol ac awdurdod lleol yn eu hwynebu mewn perthynas â'r niferoedd cynyddol o ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth. Fodd bynnag, ffocws y papur hwn yw datblygu opsiynau ar gyfer darpariaeth arbenigol yn Llanelli yn dilyn y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen ag adeilad newydd i gymryd lle Ysgol Heol Goffa. Mae hyn yn golygu bod angen canolbwyntio ar ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu difrifol (ADD), anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl) a CSA. Mae mynd i'r afael â mater y ddarpariaeth ar gyfer anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn mynd y tu hwnt i gwmpas y papur hwn.

## 4.Y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol bresennol a'r pwysau ar y ddarpariaeth honno

Strategaeth yr awdurdod lleol fu canolbwyntio ar gadw dysgwyr yn eu cymunedau drwy ddatblygu lleoliadau arbenigol i wasanaethu tair ardal yn Sir Gaerfyrddin:

- Caerfyrddin a'r ardal gyfagos
- Rhydaman a'r ardal gyfagos
- Llanelli a'r ardal gyfagos

Yn ogystal, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu lleoliadau arbenigol ledled y Sir i wasanaethu disgyblion ag ADY sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Elfen allweddol o'r strategaeth fu datblygu rhagor o ddarpariaeth arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i nodi isod yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Darpariaeth Uned, Dosbarthiadau Arsylwi ac Asesu a Lleoliadau Arbenigol sydd ynghlwm wrth Ysgolion Uwchradd Prif Ffrwd yn Sir Gaerfyrddin (Ionawr 2025)**

| Unedau Ynghlwm wrth Ysgolion | Nifer y Lleoedd | Nifer ar y gofrestr: | Categori Iaith | Ystod Oedran |
|---|---|---|---|---|
| **Rhydaman a'r ardal gyfagos** | | | | |
| Ysgol Bro Banw - Uned Arsylwi ac Asesu | 10 | 10 | Saesneg | M – Bl 2 |
| Ysgol Bro Banw - Uned Lleferydd ac Iaith y Cyfnod Sylfaen (Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu) | 10 | 3 | Saesneg | M – Bl 2 |
| Ysgol Bro Banw, Canolfan yr Enfys – CSA | 20 | 20 | Saesneg | M – Bl 6 |
| Ysgol Bro Banw, Canolfan yr Enfys – ADD | 10 | 10 | Saesneg | M – Bl 6 |
| Ysgol Bro Banw, Canolfan yr Enfys – ADDLI | 7 | 7 | Saesneg | M – Bl 6 |
| Uned Ysgol Parcyrhun ar gyfer disgyblion sy'n fyddar | 12 | 3 | Saesneg | M – Bl 6 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Canolfan y Bedol ar gyfer Cyflyrau Sbectrwm Awtistig (CSA) | 20 | 20 | Cymraeg/Dwyieithog | M – BI 6 |
| Canolfan Amanwy ar gyfer anawsterau dysgu difrifol (ADD) ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLI) | 37 | 38 | Saesneg | BI 7 – BI 11/13/14 |
| Canolfan Cothi - CSA | 42 | 41 | Saesneg | BI 7 – BI 11/13/14 |
| Canolfan yr Eithin – ADD/ADDLI/CSA | 22 | 17 | Cymraeg | BI 7 – BI 11/13/14 |
| **Llanelli a'r ardal gyfagos** | | | | |
| Canolfan y Felin - Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu | 10 | 8 | Saesneg | M – BI 2 |
| Canolfan y Felin - Uned Arsylwi ac Asesu | 20 | 20 | Saesneg | M – BI 2 |
| Canolfan y Goleudy - CSA | 12 | 12 | Saesneg | M – BI 6 |
| Uned Awtistiaeth y Pwll | 32 | 33 | Saesneg | M – BI 6 |
| Canolfan y Felin - ADD | 10 | 11 | Saesneg | M – BI 6 |
| Canolfan y Fesen - CSA | 8 | 9 | Cymraeg/Dwyieithog | M – BI 6 |
| Canolfan yr Ynys - Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu | 12 | 11 | Saesneg | BI 3 – BI 6 |
| Canolfan y Môr - CSA | 30 | 26 | Saesneg | BI 7 - BI 11/13/14 |
| **Caerfyrddin a'r ardal gyfagos** | | | | |
| Uned Arsylwi ac Asesu Parc Waundew | 10 | 10 | Saesneg | M – BI 2 |
| Canolfan Nantgaredig | 16 | 16 | Cymraeg | M – BI 6 |
| Uned Awtistiaeth Myrddin | 8 | 8 | Saesneg | M – BI 6 |
| Uned Arbennig Myrddin | 21 | 21 | Saesneg | M – BI 6 |
| Canolfan y Model - CSA | 10 | 10 | Saesneg | M – BI 6 |
| Canolfan Elfed ADDLI/ADD/CSA/Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu/Nam ar y Clyw | 93 | 93 | Saesneg | BI 7 - BI 11/13/14 |

- **Darpariaeth Uned ledled y Sir**

Defnyddir gwahanol dermau ar draws Cymru i ddisgrifio'r math hwn o ddarpariaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys Canolfannau Arbenigol, Canolfannau Adnoddau Arbenigol, Unedau ac ati. Y term a ddefnyddir yn Sir Gaerfyrddin yw Darpariaeth Uned.

Mae darpariaeth uned wedi cael ei datblygu'n effeithiol ledled Sir Gaerfyrddin i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth eang o anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliadau Cymraeg a Saesneg.

Gall unedau fod yn ffordd gost-effeithiol iawn i awdurdodau lleol ddiwallu'r angen cynyddol drwy ddefnyddio capasiti rhydd mewn ysgolion lle mae hwn ar gael, neu drwy ddefnyddio'r tir ar safleoedd ysgolion i godi ystafelloedd dosbarth symudol. Mae'r unedau a sefydlwyd ar draws Sir Gaerfyrddin wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae enghreifftiau o arferion rhagorol. Mae'r gefnogaeth a roddir i'r unedau gan

swyddogion yr awdurdod lleol wedi cael ei chroesawu ac mae dull partneriaeth cryf yn amlwg.

Mae unedau'n ddarpariaeth ardderchog ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad i ddosbarthiadau prif ffrwd gyda'u cyfoedion. Mae disgyblion yn elwa ar y mewnbwn arbenigol y gall unedau ei ddarparu ac ar y gefnogaeth y maent yn ei derbyn i gael mynediad i ddosbarthiadau prif ffrwd ar gyfer rhan o'u diwrnod ysgol.

Gan fod unedau yn tueddu i gael eu sefydlu mewn mannau sydd ar gael mewn ysgolion sydd wedi'u haddasu, nid oes ganddynt y lle ffisegol na'r adnoddau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc cymhleth iawn, ochr yn ochr â'r rhai ag anghenion llai cymhleth, mewn modd diogel ac effeithiol. Felly mae unedau'n fwyaf llwyddiannus pan fyddant yn rhan o gontinwwm darpariaeth mewn awdurdodau lleol, gyda darpariaeth fwy arbenigol ar gael i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

- **Dosbarthiadau Arsylwi ac Asesu**

Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi sefydlu dosbarthiadau arsylwi ac asesu ym mhob ardal. Mae'r dosbarthiadau hyn ar gyfer disgyblion 3-7 oed y nodwyd bod ganddynt oedi datblygiadol sylweddol ac angen cyfnod o arsylwi ac asesu i nodi ADY ymhellach a llywio cynllunio a darpariaeth yn y dyfodol. Nid oes bwriad i hon fod yn ddarpariaeth hirdymor, a'r nod yw cyfyngu ar leoliadau i ddau dymor. Mewn egwyddor, bydd hyn yn rhoi digon o amser i asesu anghenion y plentyn yn gynhwysfawr, a nodi lleoliad parhaol priodol.

Yn ogystal â'r unedau a'r dosbarthiadau arsylwi ac asesu, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi'n helaeth mewn datblygu ystod o Ganolfannau Arbenigol pwrpasol sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd.

- **Canolfannau Arbenigol sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd**

Mae'r Canolfannau Arbenigol yn wahanol eu natur i Unedau; maent yn gyfleusterau pwrpasol sydd wedi'u dylunio i ddiwallu anghenion sbectrwm llawn disgyblion ag ADY, gan gynnwys y rhai mwyaf cymhleth. Mae'r lleoliadau yn cael eu hariannu ar lefel debyg i ysgolion arbennig ac mae hyn yn briodol gan fod cymhlethdod yr anghenion yn y Canolfannau Arbenigol yn debyg i anghenion disgyblion sy'n mynychu darpariaeth ysgol arbennig.

Yng Nghaerfyrddin, mae Canolfan Elfed yn Ganolfan Arbenigol bwrpasol sydd ynghlwm wrth Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth. Mae'r Ganolfan hon wedi'i dylunio i ddiwallu anghenion pobl ifanc sydd ag ADDLI, ADD a CSA. Hefyd mae gan y Ganolfan ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Lleferydd ac Iaith a Nam

ar y Clyw. Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Ganolfan o safon uchel iawn ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol.

Mae gan Gaerfyrddin hefyd gyfleuster pwrpasol ar gyfer disgyblion cynradd ag ADDLl, ADD a CSA sydd wedi'i leoli ar dir Ysgol Gynradd Myrddin. Mae'r Ganolfan hon yn ddarpariaeth arbenigol hirsefydlog ac uchel ei pharch.

Yn Rhydaman, mae Canolfan Amanwy yn ddarpariaeth bwrpasol sydd ynghlwm wrth Ysgol Dyffryn Aman. Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer pobl ifanc ag ADDLl ac ADD. Mae gan Ganolfan Amanwy gyfleusterau rhagorol ac mae'n cynnig darpariaeth o safon uchel i'r disgyblion sy'n mynychu'r Ganolfan.

Mae Canolfan Cothi, sydd ynghlwm wrth Ysgol Bro Myrddin, yn Ganolfan Arbenigol ar gyfer pobl ifanc â CSA cymhleth. Mae hwn yn lleoliad arbenigol iawn sy'n diwallu anghenion amrywiaeth o bobl ifanc â CSA yn llwyddiannus, gan gynnwys y rhai mwyaf cymhleth.

Nid oes Canolfan Arbenigol bwrpasol ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd ag ADY yn Rhydaman. Y brif ddarpariaeth arbenigol yw Canolfan yr Enfys yn Ysgol Gynradd Bro Banw. Mae hon yn ddarpariaeth gynradd ragorol ar gyfer disgyblion ag ADDLl, ADD, Anhwylder Sbectrwm Awtistig ac anawsterau Lleferydd ac Iaith. Fodd bynnag, nid yw Canolfan yr Enfys, yn wahanol i'r Canolfannau Arbenigol eraill a ddisgrifiwyd, yn ddarpariaeth bwrpasol. Ar hyn o bryd mae'r lleoliad yn gallu diwallu anghenion oherwydd arbenigedd ac ymrwymiad y tîm uwch-arweinwyr a staff, ond maent wedi'u cyfyngu gan yr amgylchedd ffisegol, a bydd angen i swyddogion yr awdurdod lleol adolygu hyn yn barhaus.

Mae Canolfan Arbenigol hefyd wedi'i sefydlu yn Ysgol Maes y Gwendraeth; mae Canolfan yr Eithin yn darparu addysg arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion ar draws y Sir ag ADD, ADDLl a CSA. Cafodd yr ysgol ei harolygu gan Estyn yn 2023 a chafodd y Ganolfan ei chanmol am ddarparu cyfleoedd sy'n ymateb yn dda i anghenion disgyblion a oedd yn eu galluogi i wneud cynnydd da.

Yn Llanelli, mae'r model continwwm darpariaeth wedi datblygu'n wahanol iawn i Gaerfyrddin a Rhydaman. Mae Unedau yn Llanelli ond mae'r rhan fwyaf o'r rhain ar gyfer disgyblion â CSA. Y brif ddarpariaeth arbenigol ar gyfer plant oedran cynradd a phobl ifanc oedran uwchradd ag ADD ac ADDLl yw'r Ysgol Arbennig, sef Ysgol Heol Goffa. Nid oes Canolfannau Arbenigol ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd yn Llanelli fel sydd mewn ardaloedd eraill.

- **Pwysau yn ardaloedd Caerfyrddin a Rhydaman**

Mae'r continwwm darpariaeth a ddatblygwyd gan yr awdurdod lleol i wasanaethu ardaloedd Caerfyrddin a Rhydaman wedi llwyddo i raddau helaeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADDLl, ADD a CSA.

Mae rhestrau aros bach iawn y mae modd eu rheoli ar gyfer disgyblion cynradd y nodwyd bod angen darpariaeth arbenigol arnynt oherwydd ADD yn ardaloedd Caerfyrddin a Rhydaman. Byddai hyn yn awgrymu bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r angen fwy neu lai.

Nid oes unrhyw ddisgyblion oedran uwchradd yn aros i gael eu lleoli mewn darpariaeth arbenigol ar gyfer ADDLl, ADD neu CSA naill ai yng Nghaerfyrddin neu Rydaman a byddai hyn yn awgrymu bod digon o leoedd ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen, sy'n beth cadarnhaol iawn. Mae bodolaeth y Canolfannau Arbenigol hefyd yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion y disgyblion â'r anghenion mwyaf cymhleth yn yr ardal.

Fodd bynnag, oherwydd y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc â CSA cymhleth, mae capasiti'r ddarpariaeth arbenigol gyfredol ar gyfer disgyblion oedran cynradd yn y ddwy ardal, yn enwedig Rhydaman, o dan bwysau sylweddol.
Yn ardal Caerfyrddin, mae 6 o blant yn aros i gael lle yn y dosbarth arsylwi ac asesu ac yn ardal Rhydaman, mae 9 disgybl yn aros i gael mynediad i'r ddarpariaeth hon.

Y rheswm dros hyn yw bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael mynediad i'r dosbarthiadau arsylwi ac asesu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol sylweddol a'u bod yn aros i gael eu hasesu ar gyfer CSA. Cynhelir yr asesiadau hyn gan Dîm Niwroddatblygiadol y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae rhestrau aros hir ar gyfer yr asesiadau hyn ar hyn o bryd ac o ganlyniad nid yw plant sy'n mynychu'r dosbarthiadau yn gallu cael diagnosis ffurfiol mewn modd amserol. Felly, nid ydynt yn gallu cael mynediad i leoedd mewn darpariaeth arbenigol oherwydd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf mynediad sy'n gofyn am ddiagnosis ffurfiol. Mae hefyd yn wir na all llawer o blant, hyd yn oed os ydynt wedi cael diagnosis, gael mynediad i leoliad arbenigol oherwydd eu bod yn llawn.

O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau arsylwi ac asesu yn aros yno am gyfnod llawer hirach na'r ddau dymor a ddymunir. Mae hyn, yn ei dro, yn creu tagfa mewn dosbarthiadau ac o ganlyniad ychydig iawn o leoedd sydd ar gael i blant sydd mewn ysgolion prif ffrwd ar hyn o bryd ac sydd angen lleoliad.

Ar hyn o bryd mae 9 disgybl oedran cynradd ar restr aros am ddarpariaeth CSA arbenigol yng Nghaerfyrddin ac 8 yn Rhydaman. Os ychwanegir y niferoedd hyn at y rhai sydd ar restrau aros am y dosbarthiadau arsylwi ac asesu, mae 15 o blant yn

aros am leoliadau arbenigol yng Nghaerfyrddin ac 17 yn Rhydaman. Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi llunio strategaeth drylwyr i gefnogi, monitro a gwerthuso plant mewn ysgolion prif ffrwd wrth iddynt aros am leoliadau arbenigol. Nid oes amheuaeth nad yw hyn yn ddefnyddiol, ond mae angen lleoliadau arbenigol ychwanegol i sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad i'r rhain mewn modd mwy amserol.

Mae dadansoddiad o ddata yn ymwneud â'r capasiti cyfredol yn awgrymu y bydd lleoedd ar gael yng Nghaerfyrddin i ddiwallu'r angen hwn, ond nid yw hyn yn wir yn achos Rhydaman lle mae'n debygol y bydd diffyg lleoliadau arbenigol ar gyfer disgyblion oedran cynradd â CSA. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn ymwybodol o hyn ac yn ystyried opsiynau i ddatblygu darpariaeth ychwanegol.

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae dadansoddi’r ddarpariaeth ADY ledled Sir Gaerfyrddin yn bwysig gan ei bod yn darparu'r cyd-destun angenrheidiol i werthuso'r ddarpariaeth yn Llanelli. Mae ystyried yn fanwl yr opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r pwysau sy'n wynebu darpariaeth arbenigol y tu allan i Lanelli yn mynd y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen i'r awdurdod lleol barhau i adolygu hyn.

- **Pwysau yn Llanelli a'r ardal gyfagos**

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae gan Ysgol Heol Goffa 127 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd sy'n llawer uwch na'r capasiti. Yn ogystal, mae 11 o blant a phobl ifanc wedi cael eu nodi gan yr awdurdod lleol fel rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y ddarpariaeth hon ond nid oes modd eu derbyn oherwydd nad oes digon o leoedd ar gael. Mae 5 disgybl ychwanegol wedi'u cyfeirio at banel yr Awdurdod Lleol i'w hystyried ar gyfer lleoliad yn Ysgol Heol Goffa ym mis Medi 2025.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth arbenigol yn Ysgol Heol Goffa, mae un Uned ar gyfer plant oedran cynradd ag ADD yn Ysgol y Felin yn Llanelli. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn llawn ac mae ganddi restr aros fach o ddau ddisgybl.

Mae cyfanswm o 19 o ddisgyblion sydd, naill ai nawr neu erbyn mis Medi 2025, angen mynediad i ddarpariaeth arbenigol ar gyfer CSA sydd eisoes yn llawn.

Mae'n bwysig pwysleisio nad yw Ysgol Heol Goffa yn ddarpariaeth i blant a phobl ifanc â CSA. Fel y nodwyd uchod, yr her fwyaf sylweddol sy'n wynebu'r awdurdod lleol ar hyn o bryd yw'r cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc â CSA cymhleth. Wrth ystyried cynigion ar gyfer darpariaeth ADY newydd yn Llanelli, mae'n hanfodol bod y cyfle i ystyried ac ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion â CSA yn rhan o unrhyw gynigion yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae 3 Uned ar gyfer disgyblion oedran cynradd â CSA yn Llanelli ac mae'r rhain wedi'u datblygu drwy addasu lleoedd oedd ar gael mewn ysgolion cynradd prif ffrwd. Mae'r Unedau hyn yn cynnig darpariaeth briodol yn Gymraeg a Saesneg i ddisgyblion sydd ag anghenion amrywiol o ran cymhlethdod.

Mae Canolfan y Fesen yn ddarpariaeth Gymraeg sydd ag 8 lle i ddisgyblion â CSA. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth hon y tu hwnt i'w chapasiti ac mae 9 disgybl yn ei mynychu.

Mae gan Ganolfan Goleudy ddarpariaeth gynradd ar gyfer 12 disgybl ac mae'n llawn ar hyn o bryd.

Mae Uned CSA y Pwll yn ddarpariaeth fawr iawn ac mae ganddi 32 o leoedd. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth hon y tu hwnt i'w chapasiti ac mae 33 disgybl yn ei mynychu.

Mae'r Unedau i gyd yn llawn ac mae rhestr aros o 17 disgybl sydd angen lleoliadau ar hyn o bryd.

Mae yna hefyd 2 ddosbarth arsylwi ac asesu yn Llanelli ac mae'r ddau wedi'u lleoli yn Ysgol y Felin, gan ddarparu 20 lle i blant 3-7 oed. Mae'r ddau ddosbarth yn llawn ac mae 19 o blant yn aros am leoedd ar hyn o bryd.
Mae nifer y plant ifanc sy'n aros i gael mynediad i'r dosbarthiadau arsylwi ac asesu yn destun pryder sylweddol. Mae arweinwyr ysgolion yn dweud bod nifer cynyddol o blant ifanc iawn ag ADY cymhleth iawn nad ydynt yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth arbenigol. Fel y nodwyd uchod, mae swyddogion yr awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion i gefnogi, monitro a gwerthuso plant mewn ysgolion prif ffrwd wrth iddynt aros am leoliadau arbenigol. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ond ni all ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY cymhleth iawn yn llawn.

O ystyried yr anawsterau sy'n wynebu'r dosbarthiadau arsylwi ac asesu, fel yr amlinellir uchod, byddai adolygiad o bwrpas a swyddogaeth y dosbarthiadau hyn yn ddefnyddiol. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gellid adolygu'r arfer o fynnu bod plentyn neu berson ifanc yn cael diagnosis ffurfiol o CSA cyn y gall gael mynediad i ddarpariaeth arbenigol. Yn Sir Gaerfyrddin, gallai plant a phobl ifanc fod yn aros hyd at 3 blynedd i gael diagnosis ac o dan y system bresennol ni fyddent yn gymwys i gael lle mewn lleoliad arbenigol drwy gydol yr amser hwn.

Mae'r Cod ADY yn pwysleisio y dylid diwallu anghenion yn seiliedig ar nodi rhwystrau i ddysgu yn hytrach na diagnosis ffurfiol a byddai newid meini prawf mynediad ar gyfer darpariaeth i adlewyrchu hyn yn gam cadarnhaol ymlaen. Mae hyn yn wir yn achos yr holl ddarpariaeth arbenigol ar gyfer CSA.

Gellid archwilio modelau amgen o gynnig y ddarpariaeth arsylwi ac asesu hefyd. Mae yna enghreifftiau o Ganolfannau Ymyrraeth Gynnar y gellid eu datblygu sy'n cynnig lleoliadau rhan-amser i blant ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol ochr yn ochr â swyddogaeth hyfforddiant i staff.

Gallai creu darpariaeth o'r fath ddatblygu sgiliau staff ysgolion prif ffrwd i ddiwallu’r angen fwy a mwy a gallai hefyd ddarparu lleoliadau ar gyfer mwy o ddisgyblion. Byddai hefyd yn cyd-fynd â strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol y Sir drwy ddatblygu ymarfer cynhwysol ymhellach mewn ysgolion.

O ystyried poblogaeth Llanelli a lefel yr angen mae nifer y lleoedd sydd ar gael mewn Unedau/dosbarthiadau arsylwi ac asesu yn gymharol isel ac mae'r galw am leoedd arbenigol mewn darpariaethau arbenigol cynradd yn Llanelli yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae'r diffyg hwn yn golygu bod angen gweithredu'n strategol i sicrhau bod anghenion pob disgybl â CSA yn cael eu diwallu'n effeithiol ar draws ardal ddaearyddol ehangach a thrwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Fel y nodwyd uchod, gall Unedau fod yn ffordd gost-effeithiol iawn i awdurdodau lleol ddiwallu'r angen cynyddol, ond mae'n anodd iddynt ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc cymhleth iawn ochr yn ochr â'r rhai ag anghenion llai cymhleth mewn modd diogel ac effeithiol. Felly mae unedau'n fwyaf llwyddiannus pan fyddant yn rhan o gontinwwm darpariaeth mewn awdurdodau lleol, gyda darpariaeth fwy arbenigol ar gael i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Gallai cynyddu nifer y lleoedd mewn dosbarthiadau arsylwi ac asesu a darpariaeth Uned lwyddo i ddiwallu anghenion disgyblion na allant gael mynediad i ddarpariaeth brif ffrwd oherwydd eu hanawsterau dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae disgyblion ag anghenion cymhleth iawn angen mynediad i leoliad arbenigol pwrpasol sydd â'r amgylchedd ffisegol a'r ystod o ymyriadau therapiwtig sydd eu hangen.

Mae darpariaeth arbenigol yn Llanelli ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd â CSA yn cael ei chynnig yng Nghanolfan y Môr. Sefydlwyd y ddarpariaeth hon yn ddiweddar ac ar hyn o bryd mae wedi'i lleoli mewn ystafelloedd dosbarth symudol ar safle ysgol brif ffrwd Glan-y-Môr. Dim ond dros dro yw'r ddarpariaeth hon ac nid yw'n ateb parhaol i ddiwallu'r angen am ddarpariaeth CSA arbenigol.

Mae'r ddarpariaeth bresennol yn gallu diwallu anghenion uchafswm o 30 disgybl. Fodd bynnag, mae lle ffisegol y ddarpariaeth hon yn gyfyngedig ac nid yw'n ddigon hyblyg i ddarparu mewnbwn therapiwtig i'r bobl ifanc ac i ddiwallu anghenion y disgyblion mwyaf cymhleth a allai ei chael hi'n anodd goddef cael eu haddysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion.

Er nad oes rhestr aros am leoedd mewn darpariaeth uwchradd ar hyn o bryd, mae dadansoddiad o ddata'r awdurdod lleol yn dangos y bydd angen 8 lle ychwanegol yn 2025, 7 yn 2026, 4 yn 2027, 11 yn 2028 a 10 yn 2029. Amcangyfrif ceidwadol yw hwn sy'n seiliedig ar nifer y disgyblion sydd mewn darpariaeth arbenigol gynradd ar hyn o bryd ac mae'n debygol iawn y bydd mwy o ddisgyblion yn cael eu nodi fel rhai sydd angen darpariaeth arbenigol yn ystod y cyfnod hwn. Ar sail data cyfredol byddai angen cynyddu nifer y lleoedd yng Nghanolfan y Môr i 65 erbyn 2029 i gael digon o leoedd i ddiwallu'r angen. Mae datblygu'r ddarpariaeth i ddiwallu'r angen cynyddol hwn yn flaenoriaeth gan y bydd y galw am leoedd yn mynd y tu hwnt i nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd yn gyflym iawn.

I grynhoi, er bod yr awdurdod lleol wedi datblygu ystod o ddarpariaeth arbenigol yn effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion ADY, oherwydd y cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc ag ADY ledled Cymru, mae Sir Gaerfyrddin, fel pob awdurdod lleol arall, yn wynebu her enfawr o ran diwallu'r angen cynyddol hwn.

Yn sicr, nid yw'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Heol Goffa yn addas i'r diben ar hyn o bryd ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn. Mae Ysgol Heol Goffa yn ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol (ADD) ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl) ac mae sicrhau bod gan y grŵp hwn o ddisgyblion amgylchedd dysgu priodol yn hanfodol. Fodd bynnag, wrth ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn, rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried mai mater o bwys mawr yn Llanelli ar hyn o bryd yw diffyg darpariaeth arbenigol ddigonol ar gyfer plant a phobl ifanc â CSA.

Yn yr amgylchedd ariannol presennol, mae diwallu'r lefel ddigynsail hon o angen yn her enfawr, ond mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i adolygu digonolrwydd darpariaeth ADY yn eu hysgolion a'u hardal. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn nad yw'r trefniadau yn ddigonol mae'n rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r sefyllfa.

**5. Yr opsiynau sy'n cael eu hystyried**

Yn dilyn dadansoddiad cadarn o'r holl wybodaeth a gasglwyd, ystyrir bod 6 opsiwn posibl y mae angen i uwch-swyddogion ac aelodau'r Cabinet eu hystyried.

Opsiwn 1: Adnewyddu'r ysgol bresennol

Opsiwn 2: Adolygu a diwygio'r cynigion cyfredol i adeiladu ysgol arbennig newydd sydd â'r un nifer o leoedd (120 o ddisgyblion) ond sydd â dyluniad mwy cost-effeithiol

Opsiwn 3: Adolygu a diwygio'r cynigion cyfredol i adeiladu ysgol arbennig newydd sydd â mwy o leoedd (150 o ddisgyblion)

Opsiwn 4: Yn ogystal â rhoi Opsiwn 2 neu Opsiwn 3 ar waith, datblygu cynigion newydd i adeiladu un Ganolfan Arbenigol gynradd ac un Ganolfan Arbenigol uwchradd ar gyfer disgyblion â Chyflyrau Sbectrwm Awtistig (CSA) sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd

Opsiwn 5: Adolygu a diwygio'r cynnig cyfredol i adeiladu ysgol arbennig newydd a'i ddylunio i gynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion â Chyflyrau Sbectrwm Awtistig (CSA) sydd â mwy o leoedd (250 o ddisgyblion)

Opsiwn 6: Datblygu cynigion newydd i adeiladu un Ganolfan Arbenigol gynradd ac un Ganolfan Arbenigol uwchradd ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol (ADD), anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl) a Chyflyrau Sbectrwm Awtistig (CSA)

## 6. Opsiwn 1: Adnewyddu'r ysgol bresennol

O ystyried y cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, un opsiwn sydd angen ei ystyried yw adnewyddu'r ysgol bresennol.

Ym mis Mai 2024, yn dilyn y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r ysgol newydd arfaethedig i gymryd lle ysgol bresennol Ysgol Heol Goffa, cynhaliwyd arolygiad Iechyd a Diogelwch o'r ysgol.

Dywedodd yr adroddiad dilynol, a gyhoeddwyd ar 23 Mai 2024, fod golwg a decor yr ysgol yn wael a nododd ddiffygion sylweddol, gan gynnwys y canlynol:

- Roedd ystafelloedd gorffwys a chyfleusterau lles y staff yn wael
- Nid oedd digon o gyfleusterau newid a thoiledau ar gyfer y staff a'r disgyblion
- Roedd diffyg lle storio cyffredinol a arweiniodd at ddefnyddio cyfleusterau newid/toiledau fel lle storio hefyd
- Nid oedd digon o le i storio offer sylfaenol fel cadeiriau olwyn a oedd yn aml yn cael eu storio mewn coridorau gan arwain at dagfeydd
- Nid oedd coridorau a drysau yn ddigon llydan i alluogi plant i symud yn ddidrafferth mewn cadeiriau olwyn
- Nid oedd lleoedd chwarae awyr agored yn ddigon diogel, roeddent mewn cyflwr gwael ac yn cynnwys offer o safon anfoddhaol
- Nid oedd digon o leoedd parcio a chyfleusterau gollwng ac roedd problemau rheoli traffig, yn enwedig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol
- Oherwydd maint y diffygion Iechyd a Diogelwch a nodwyd yn yr adroddiad, argymhellwyd bod yr awdurdod lleol yn cynnal Arolwg Cyflwr Adeiladau

cynhwysfawr o'r ysgol cyn gynted â phosibl i nodi cwmpas llawn y gwaith yr oedd angen ei wneud i unioni'r materion a nodwyd.

Cynhaliwyd Arolygon Cyflwr Adeiladau manwl o'r brif ysgol a'r ysgol hŷn wedi hynny, a barnwyd bod cyflwr y ddau adeilad yn "wael gyda diffygion mawr”. Nodwyd nifer o ddiffygion gan adlewyrchu i raddau helaeth y rhai a nodwyd yn yr adroddiad Iechyd a Diogelwch y cyfeiriwyd ato uchod.

Aeth yr awdurdod lleol ati'n gyflym i fynd i'r afael â'r pryderon mwyaf brys a hyd yn hyn mae wedi buddsoddi bron i £500,000 i wneud gwelliannau i adeilad yr ysgol. Mae rhaglen waith 5 mlynedd wedi'i rhoi ar waith i unioni'r holl ddiffygion eraill a nodwyd. Rhwng Mai 2024 a Mai 2029 amcangyfrifir mai costau'r gwaith sydd ei angen i safle'r brif ysgol yw £1.854 miliwn, a bod angen £2.358 miliwn ychwanegol i unioni diffygion yr ysgol hŷn. Amcangyfrifir y bydd yn costio cyfanswm o £4.212 miliwn i gyflawni'r gwaith sydd ei angen i sicrhau bod safle'r ysgol bresennol yn addas i'r diben. Rhaid nodi hefyd nad yw'r Mynegai Prisiau Adwerthu a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr wedi'u hychwanegu at yr amcangyfrif o’r costau ac felly mae hi bron yn sicr y bydd y symiau hyn yn cynyddu dros amser. Hefyd, mae'n ddigon posibl y bydd yr adeilad ysgol yn dirywio mewn ffyrdd eraill yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd gan mai dim ond trosolwg o gyflwr yr adeilad ar adeg benodol y mae arolwg yn ei roi. Yn ogystal, mae'n bwysig nodi bod yr arolygon a gynhaliwyd yn gyfyngedig o ran eu cwmpas a'u bod yn seiliedig yn unig ar archwiliad o gyflwr gweladwy yr adeiladau ac ni chynhaliwyd unrhyw arolwg strwythurol nac archwiliad o wasanaethau neu orffeniadau cudd neu fel arall na ellid eu gweld.

Adeiladwyd y prif adeilad addysgu tua 1970, ac ychwanegwyd estyniadau ac adeiladau ychwanegol amrywiol yn yr 1980au a'r 1990au. O ystyried oedran yr adeiladau, ni ellir diystyru materion strwythurol cudd pellach ac mae'n bosibl y gallai costau adnewyddu pellach ddod i'r amlwg.

Nid yw adeiladau'r ysgol bresennol yn bwrpasol ac nid ydynt wedi'u dylunio gan ystyried anghenion plant a phobl ifanc ag ADY cymhleth. Yn wreiddiol, defnyddiwyd prif adeilad yr ysgol fel Canolfan Hyfforddiant Gwasanaethau Cymdeithasol, ac roedd adeilad yr ysgol hŷn yn Ganolfan Gweithgareddau Cymdeithasol i Oedolion gynt. Er bod unioni'r amrywiaeth eang o ddiffygion a nodwyd yn opsiwn posibl, nid oes sicrwydd y byddai hyn yn darparu ysgol a fyddai'n bodloni'r safonau a'r disgwyliadau cyfredol ar gyfer darpariaeth ADY arbenigol iawn a hygyrch.

Hefyd nid oes sicrwydd bod digon o le ar y safle presennol i addasu'r adeilad i greu digon o doiledau, ystafelloedd therapi, lle storio ac ystafelloedd dosbarth y byddai eu hangen i fodloni safonau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. I fodloni'r gofynion hyn, efallai y bydd angen ychwanegu at ôl troed yr adeiladau ar y safle a fyddai'n arwain at gostau pellach. Mae pryderon gwirioneddol hefyd nad oes

gan y safle presennol ddigon o le ar gyfer unrhyw ddatblygiad pellach. Felly, byddai'n hanfodol cynnal astudiaeth ddichonoldeb fanwl cyn dechrau unrhyw waith mawr ar yr ysgol.

I grynhoi, mae cost adnewyddu'r adeiladau presennol yn sylweddol ac amcangyfrifir y bydd o leiaf £4.212 miliwn. Fodd bynnag, hyd yn oed yn dilyn y buddsoddiad hwn, mae'n annhebygol y bydd adnewyddu'r ysgol bresennol yn darparu amgylchedd dysgu sydd ei angen ar y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol. Hefyd, nid yw adnewyddu'r adeilad presennol yn darparu model sydd wedi'i ddiogelu at y dyfodol i ateb y galwadau cynyddol am leoliadau mewn ysgol arbennig a'r twf posibl oni bai bod modd ehangu'r ddarpariaeth.

**7. Opsiwn 2: Adolygu a diwygio'r cynigion cyfredol i adeiladu ysgol arbennig newydd sydd â'r un nifer o leoedd (120 o ddisgyblion) ond sydd â dyluniad mwy cost-effeithiol**

Mae Opsiwn 2 yn golygu adolygu'r cynllun arfaethedig i adeiladu'r ysgol arbennig newydd a'i ailddylunio i leihau costau. Fel y nodwyd uchod, mae'r awdurdod lleol wedi ymgymryd â phroses cynllunio ac ymgynghori drylwyr iawn sydd wedi arwain at ddatblygu cynlluniau ar gyfer ysgol arbennig o'r radd flaenaf.

Mae'n sicr bod pawb a oedd yn ymwneud â chynllunio'r ysgol newydd wedi ymrwymo i greu'r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant a'r bobl ifanc. Yr hyn sy'n llai clir yw a roddwyd digon o ystyriaeth i gostau posibl cyflawni darpariaeth o'r fath o fewn yr amlen ariannu oedd ar gael.  Fodd bynnag, mae'n sicr bod costau adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac na ellid bod wedi rhagweld y cynnydd hwn.

O ystyried bod llawer o amser, ymdrech ac arian wedi'i wario yn datblygu'r cynllun, ac er gwaethaf y penderfyniad a wnaed ym mis Mai 2024 nad oedd ysgol arbennig newydd yn hyfyw yn ariannol, byddai'n ddoeth adolygu'r cynlluniau i ganfod a ellir darparu ysgol arbennig mewn modd mwy cost-effeithiol â manyleb lai.

Yn 2024, comisiynodd y Cyngor Blake Morgan Project and Cost Management Ltd i gynghori ar faterion yn ymwneud â'r cynllun. Nodwyd canfyddiadau Blake Morgan yn Natganiad Gweithredol Tendr y Cyngor ym mis Mawrth 2024. Nododd yr adroddiad bod cyfle drwy beirianneg gwerth i leihau'r costau cyffredinol i lai na £30 miliwn. Fodd bynnag, pwysleisiwyd hyd yn oed pe bai hyn yn digwydd, ei bod yn annhebygol y byddai'r bwlch rhwng y gyllideb sydd ar gael a'r costau yn y tendr yn cael ei bontio'n llwyr.

I gyflawni arbedion pellach, awgrymodd adroddiad Blake Morgan y dylid datblygu "briff neu strategaeth prosiect newydd ac ailddylunio'r ysgol naill i fod yn llai o ran

maint, sef adeilad deulawr o bosibl, neu'n llai cymhleth o safbwynt pensaernïol gan ganolbwyntio mwy ar ymarferoldeb a'r defnyddiwr terfynol yn hytrach nag estheteg.”

O ystyried yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor i ddiwallu anghenion nifer cynyddol o ddisgyblion ag ADY yn Llanelli, mae'n hanfodol bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon i sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Nid yw hynny'n awgrymu y bydd yr hyn sydd ar gael yn yr ysgol sydd wedi'i hailddylunio o ansawdd gwaeth; cydnabyddir yn eang bod angen y cyfleusterau gorau posibl ar y grŵp hwn o blant a phobl ifanc a'u bod yn haeddu eu cael. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun newydd a mwy cost-effeithiol yn sicr yn werth ei ystyried.

Yn y cynllun presennol, mae'r ysgol newydd yn adeilad unllawr ac oherwydd hynny mae'n defnyddio darn mwy o dir ac mae angen gwaith tir helaeth. Mae gan adeilad unllawr rai manteision addysgol, yn enwedig o ran hygyrchedd. Fodd bynnag, mae llawer o enghreifftiau o ysgolion arbennig deulawr sy'n cynnig darpariaeth ragorol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth iawn. Mae'r materion a allai fod yn gysylltiedig ag adeilad deulawr, yn hytrach nag adeilad unllawr, yn gallu cael eu rheoli'n effeithiol iawn ac ni ddylent gael effaith negyddol ar brofiad addysgol y disgyblion.

Yn ogystal, mae dwy elfen allweddol arall o'r cynllun y dylid eu hadolygu. Yn gyntaf, mae'r cynllun presennol hefyd yn cynnwys Canolfan Seibiant ar wahân ar dir yr ysgol i ddarparu llety preswyl i 5 o bobl ifanc. Nid darpariaeth addysgol yw hon fel y cyfryw, a gallai'r Cyngor adolygu'r angen am y ddarpariaeth hon ar hyn o bryd ac ystyried a oes unrhyw opsiynau eraill i ddiwallu'r angen hwn yn y Sir. Amcangyfrifir y gellid cyflawni arbedion o £2.4 miliwn drwy dynnu’r Ganolfan Seibiant o'r cynllun.

Yn ail, mae'r cynlluniau presennol yn cynnwys creu pwll hydrotherapi fel rhan o'r ysgol. Mae’n sicr bod darpariaeth o'r fath yn hynod fuddiol i lawer o blant a phobl ifanc sydd ag ystod o anghenion cymhleth. Fodd bynnag, nid yw'n hanfodol bod darpariaeth o'r fath ar gael ar y safle cyn belled â bod mynediad hawdd i ddarpariaeth o'r fath. Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, wedi datblygu cyfleuster iechyd a hamdden o'r radd flaenaf o'r enw Pentre Awel. Mae'r cyfleuster hwn yn agos at y safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd ac mae ganddo bwll hydrotherapi a fyddai ar gael i'w ddefnyddio gan ddisgyblion yr ysgol newydd. O gofio hyn, ni fyddai'n angenrheidiol nac yn gost-effeithiol dyblygu'r ddarpariaeth hon yn yr ysgol. Amcangyfrifir y byddai tynnu'r pwll hydrotherapi o'r cynllun yn arbed tua £1 filiwn.

Hefyd cododd Blake Morgan faterion yn ymwneud â'r broses dendro a ddefnyddiwyd ar gyfer y contract i adeiladu'r ysgol newydd. I nodi contractwr priodol, cyhoeddwyd tendr ar gyfer mini-gystadleuaeth drwy Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2020.  Gofynnwyd am fynegiannau o ddiddordeb i gyflwyno tendrau

gan 4 o'r 5 contractwr ar y fframwaith. Mae hon yn nifer gymharol fach ac yn anffodus dim ond un contractwr a gyflwynodd gynnig. Yn yr Adroddiad Tendr ar 11 Mawrth 2024, daeth Blake Morgan i'r casgliad bod y costau tendr yn uwch na'r disgwyl a bod y diffyg cystadleuaeth oherwydd y broses un-cam yn debygol o fod wedi cyfrannu at hyn.

Pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i fwrw ymlaen â'r cynigion ar gyfer adeilad newydd, byddai'n synhwyrol defnyddio math arall o gaffael i greu mwy o ddiddordeb yn y farchnad ac ysgogi cystadleuaeth yn y broses. Drwy wneud hyn, mae'n bosibl, ond nid yn sicr, y gallai'r costau adeiladu gael eu lleihau'n sylweddol.

Pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i adolygu'r cynllun presennol, byddai'n ddoeth hefyd ystyried a yw'r cynllun presennol yn creu digon o gapasiti yn y system i ddiwallu'r angen a nodwyd. Mae'r diffyg capasiti yn Ysgol Heol Goffa yn dra hysbys. Mae 127 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol bresennol ac mae 19 o ddisgyblion ar restr aros. Mae'r cynllun presennol ar gyfer yr ysgol newydd yn creu lle ar gyfer 120 o ddisgyblion yn unig. Mae hyn yn amlwg yn peri problem gan ei fod yn sylweddol is na'r hyn sydd ei angen.

Mae'n hynod bwysig bod y diffyg capasiti hwn ar gyfer lleoedd mewn ysgol arbennig yn cael blaenoriaeth wrth gynllunio'r ddarpariaeth yn y dyfodol fel y gall y Cyngor gyflawni ei ddyletswydd statudol yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 i gynnig digon o ddarpariaeth i ddisgyblion ag ADY.

I grynhoi, mae'n debygol y gallai ailddylunio'r cynllun presennol a phroses dendro newydd leihau cost adeiladu'r ysgol newydd yn sylweddol heb effeithio'n sylweddol ar ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, os penderfynir y dylai capasiti'r ysgol newydd barhau i fod yn 120 o leoedd, ni fydd hyn yn ddigonol i ddiwallu'r angen a nodwyd ar hyn o bryd yn Llanelli.

Pe bai hyn yn digwydd, byddai angen adolygu'r dull o ymdrin â lleoliadau yn Ysgol Heol Goffa er mwyn sicrhau mai dim ond disgyblion â'r anghenion mwyaf cymhleth fyddai'n cael eu lleoli yn yr ysgol. Nid yw pob disgybl ag ADY cymhleth angen yr amgylchedd arbenigol a mynediad i'r ymyriadau a'r offer sydd ar gael mewn ysgol arbenigol. Gellid adolygu'r meini prawf mynediad ar gyfer yr ysgol newydd i sicrhau bod y lleoedd yn cyfateb i'r angen.

Byddai angen i'r adolygiad o leoliadau yn Ysgol Heol Goffa fod yn rhan o adolygiad ehangach o'r continwwm darpariaeth yn Llanelli. Byddai cyfyngu'r lleoedd yn Ysgol Heol Goffa i'r rhai mwyaf cymhleth yn golygu bod angen datblygu darpariaeth Uned ymhellach. Byddai hyn yn cynnig darpariaeth arbenigol briodol ar gyfer disgyblion ag anghenion llai cymhleth nad oeddent yn bodloni'r meini prawf mynediad ar gyfer Ysgol Heol Goffa.

**8. Opsiwn 3: Adolygu a diwygio'r cynigion cyfredol i adeiladu ysgol arbennig newydd sydd â mwy o leoedd (150 o ddisgyblion)**

Mae'r opsiwn hwn yn golygu adolygu'r cynllun arfaethedig i adeiladu ysgol arbennig newydd a'i ailddylunio i leihau costau ond cynyddu nifer y lleoedd i 150.

Fel y nodwyd yn Opsiwn 2, mae'n debygol y bydd ailddylunio'r ysgol newydd arfaethedig yn lleihau costau'r gwaith adeiladu yn sylweddol. Er bod yn rhaid cydnabod y byddai gwaith ailddylunio o'r fath yn arwain at gostau pellach i'r Cyngor heb sicrwydd cadarn y byddai arbedion yn cael eu cyflawni, dylai bwrw ymlaen â'r opsiwn hwn ddarparu ateb llawer mwy cost-effeithiol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn Llanelli ag ADD ac ADDLl.

Fodd bynnag, fel yr eglurwyd, nid yw capasiti arfaethedig yr ysgol newydd yn ddigonol i ateb y galw presennol am leoedd. Felly, byddai'n synhwyrol ystyried nid yn unig ailddylunio'r adeilad i leihau costau ond hefyd archwilio'r posibilrwydd o gynyddu capasiti'r ysgol i lefel sy'n darparu nifer y lleoedd sydd eu hangen.

Byddai cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn golygu bod angen cyllid cyfalaf ychwanegol, ond byddai'n sicrhau bod plant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu cael mynediad i addysg briodol ar hyn o bryd, yn gallu cael mynediad i honno, a byddai hefyd yn golygu bod modd diogelu'r ddarpariaeth hon ar gyfer y dyfodol gan sicrhau y gallai'r Cyngor ddiwallu anghenion disgyblion ag ADDLl ac ADD ar gyfer y dyfodol agos. Byddai hefyd yn darparu rhai lleoedd ychwanegol ar draws y Sir pe bai'r angen yn codi, sy'n gwneud y system gyfan yn fwy hyblyg.

Y ddadl gryfaf dros gynyddu'r ddarpariaeth yw y byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018).

**9. Opsiwn 4: Yn ogystal â rhoi naill ai Opsiwn 2 neu Opsiwn 3 ar waith, datblygu cynigion newydd i adeiladu un Ganolfan Arbenigol gynradd ac un Ganolfan Arbenigol uwchradd ar gyfer disgyblion â Chyflyrau Sbectrwm Awtistig (CSA) sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd.**

Mae angen ystyried Opsiwn 4 ar y cyd ag Opsiwn 2 neu Opsiwn 3.

Fel y nodwyd yn flaenorol, byddai rhoi Opsiwn 3 ar waith yn sicrhau y gallai plant a phobl ifanc ag ADDLl ac ADD nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu cael mynediad i addysg briodol, gael mynediad i honno yn yr Ysgol Arbennig newydd sydd wedi'i hailddylunio. Byddai'n darparu’r capasiti i ddiogelu'r ddarpariaeth hon ar gyfer y dyfodol gan sicrhau y gallai'r Cyngor ddiwallu anghenion pob person ifanc yn yr ardal

â'r anghenion hyn ar gyfer y dyfodol agos. Byddai hefyd yn darparu rhai lleoedd ychwanegol ar draws y Sir pe bai'r angen yn codi, sy'n gwneud y system yn fwy hyblyg.

Byddai rhoi Opsiwn 2 ar waith yn sicrhau y gallai'r Ysgol Arbennig newydd ddiwallu anghenion disgyblion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn unig a byddai angen i strategaeth i ehangu darpariaeth Uned sefyll ochr yn ochr â hyn i sicrhau bod digon o gapasiti yn y system i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY llai cymhleth.

Fodd bynnag, er y gallai rhoi unrhyw un o'r opsiynau hyn ar waith ddiwallu anghenion disgyblion ag ADD ac ADDLl mewn egwyddor, ni fyddai'r naill opsiwn na'r llall yn mynd i'r afael â'r diffyg capasiti yn y system i ddiwallu anghenion y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc â CSA sydd angen darpariaeth arbenigol.

Byddai Opsiwn 4 yn golygu creu dwy Ganolfan Arbenigol newydd sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd ond, yn wahanol i Opsiwn 6, byddai ganddynt lawer llai o leoedd a byddent wedi'u dynodi i ddiwallu anghenion disgyblion â CSA yn unig. Byddai'r ddwy Ganolfan Arbenigol newydd hyn yn ychwanegol at yr ysgol newydd wedi'i hailddylunio ar gyfer Ysgol Heol Goffa fel y nodir yn Opsiwn 2 neu 3.

Byddai 50 o leoedd yn y Ganolfan Arbenigol Gynradd ar gyfer CSA, a byddai 65 o leoedd yn y Ganolfan Arbenigol Uwchradd. Gallai cynllunio'r darpariaethau hyn fod yn seiliedig ar y model llwyddiannus a ddefnyddiwyd i sefydlu Canolfan Cothi, sef darpariaeth bwrpasol ragorol ar gyfer disgyblion â CSA yn ardal Rhydaman.

Ar hyn o bryd nid oes dim gwaith cynllunio wedi'i wneud i ddatblygu'r cynllun ar gyfer y ddwy Ganolfan hyn. Felly nid oes amcangyfrif o'r costau ar gael; dim ond yn dilyn astudiaethau dichonoldeb pellach a phe bai cynlluniau manwl yn cael eu datblygu y gellid darparu'r rhain. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o ddarpariaeth debyg yn cael ei datblygu'n ddiweddar mewn awdurdod lleol arall am gost o tua £9 miliwn. Ar sail y ffigur hwn, amcangyfrifir y gallai'r gost adeiladu ar gyfer y ddwy uned fod tua £18 miliwn. Byddai'r costau hyn yn ychwanegol at gostau darparu'r ysgol newydd wedi'i hailddylunio ar gyfer Ysgol Heol Goffa yn unol ag Opsiwn 2 neu 3.

Byddai'n rhaid ceisio'r cyllid sydd ei angen i gefnogi'r cynllun drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r rhaglen hon, ac yn amodol ar i'r Cyngor symud ymlaen drwy fodel busnes pum achos Llywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth, byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu 75% o gost y cynllun a byddai'r Cyngor yn ariannu'r 25% sy'n weddill.

Byddai angen datblygu'r cynigion hefyd yn unol â chanllawiau deddfwriaethol Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru a bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**10. Opsiwn 5: Adolygu a diwygio'r cynnig cyfredol i adeiladu ysgol arbennig newydd a'i ailddylunio i gynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion â Chyflyrau Sbectrwm Awtistig (CSA) sydd â mwy o leoedd (250 o ddisgyblion)**

Mae Opsiynau 1, 2 a 3 yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADDLI ac ADD. Mae Opsiynau 4 a 5 hefyd yn ystyried sut y gallai'r awdurdod lleol ymateb i'r pwysau cynyddol sylweddol iawn yn y system ar gyfer darpariaeth CSA arbenigol.

Un opsiwn i'w ystyried fyddai newid dynodiad Ysgol Heol Goffa i gynnwys plant a phobl ifanc ag awtistiaeth yn ogystal â'r rhai ag ADD ac ADDLI. Byddai hyn yn golygu ailddylunio'r cynigion ar gyfer yr ysgol newydd i gynnwys datblygu darpariaeth i ddiwallu'r angen hwn.

Byddai angen cynyddu capasiti'r ysgol newydd yn sylweddol ac o ystyried y capasiti ychwanegol sydd ei angen i ddarparu ar gyfer nifer y disgyblion ag ADD ac ADDLI byddai hyn yn golygu bod yn rhaid i'r ysgol ddarparu 250 o leoedd.

Nid oes unrhyw waith cynllunio wedi'i wneud i asesu dichonoldeb a chost cynllun i gyflawni'r ddarpariaeth hon. Dim ond ar ôl cynnal astudiaethau dichonoldeb pellach a phe bai cynlluniau manwl yn cael eu datblygu y gellid darparu amcangyfrif o'r costau, ond hyd yn oed gydag arbedion effeithlonrwydd a allai gael eu nodi drwy ailddylunio'r ysgol newydd, byddai adeiladu ysgol arbennig o'r maint hwn yn costio isafswm o £36 miliwn.

Byddai'n rhaid ceisio'r cyllid sydd ei angen i gefnogi'r cynllun drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r rhaglen hon, ac yn amodol ar i'r Cyngor symud ymlaen drwy fodel busnes pum achos Llywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth, byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu 75% o gost y cynllun a byddai'r Cyngor yn ariannu'r 25% sy'n weddill.

Byddai angen datblygu'r cynigion hefyd yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru a bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae gan Ysgolion Arbennig fel Heol Goffa amrywiaeth o fanteision y mae angen i'r awdurdod lleol eu hystyried wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer darpariaeth ADY arbenigol yn Llanelli. Caiff y rhain eu crynhoi isod:

- Mae Ysgolion Arbennig yn canolbwyntio ar unigolion ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rhinwedd eu hunain a bod eu cyflawniadau'n cael eu dathlu a'u cydnabod. Mae llawer o'r bobl ifanc mewn darpariaeth o'r fath yn cael trafferth cyflawni ar lefel debyg i'w cyfoedion prif ffrwd ac yn aml mae eu

profiad o addysg brif ffrwd yn cynnwys delio â methiant, diffyg dealltwriaeth ac ynysu.

- Gall Ysgolion Arbennig gynnig sylw personol a chwricwlwm sydd wedi'i gynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion unigol.
- Gall plant ag anghenion tebyg ffurfio cyfeillgarwch â'u cyfoedion sy'n gallu eu helpu i deimlo'n llai gwahanol a gwneud ffrindiau yn haws, gan roi hwb i hyder, hunan-barch a llesiant plentyn.
- Mae Ysgolion Arbennig yn fedrus o ran olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn seiliedig ar fan cychwyn yr unigolyn hwnnw ac felly gallant deilwra rhaglenni ac ymyrraeth i ddiwallu anghenion.
- Ni ellir tanbrisio'r berthynas y mae Ysgolion Arbennig yn ei ffurfio â rhieni/gofalwyr. Oherwydd anghenion cymhleth eu plant, mae rhieni/gofalwyr yn aml yn wynebu heriau enfawr, ac mae ysgolion arbennig yn arbenigol ac yn fedrus iawn wrth ddarparu'r cymorth sydd ei angen.
- Gall Ysgolion Arbennig ganolbwyntio ar gyrchfannau y disgybl yn y dyfodol a sicrhau bod cynllunio amlasiantaeth ar waith i nodi anghenion yn y dyfodol a gweithio gyda darparwyr lleol i gefnogi cyfleoedd swyddi a gyrfaoedd yn y dyfodol.
- Mae Ysgolion Arbennig yn darparu cyfleoedd â chymorth y tu allan i'r ystafell ddosbarth i'r plant a'r bobl ifanc sydd â'r nod o ehangu profiadau'r disgybl a datblygu sgiliau a thalentau unigol ac mae hyn yn cynyddu hunan-barch a llesiant ac yn ei baratoi ar gyfer y dyfodol.
- Mae gan Ysgolion Arbennig staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n cael mynediad at ddatblygiad proffesiynol sy'n benodol i'w hanghenion. Gallant ddatblygu a chefnogi staff newydd yn effeithiol drwy ddefnyddio staff profiadol i fentora a chefnogi eu datblygiad. Mae hyn yn gwneud ysgolion arbennig yn fwy cadarn yn sgil absenoldeb staff neu golli staff ac yn galluogi parhad addysgu a chymorth sy'n hanfodol.

Mae yna safbwynt arall sy'n meddwl bod Ysgolion Arbennig yn niweidiol i blant a phobl ifanc oherwydd nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn darpariaeth brif ffrwd ac maent yn cael eu haddysgu i ffwrdd oddi wrth y rhan fwyaf o'u cyfoedion. Credir bod addysg ar wahân yn parhau gwahaniaethu, dibrisio, stigmateiddio, stereoteipio ac ynysu, sef yr union bethau sydd ymhlith y rhwystrau mwyaf i barch, cyfranogi a bywyd llawn yn ôl oedolion anabl.

Nid oes amheuaeth nad yw pobl ifanc sy'n gadael ysgol arbennig yn wynebu llawer o heriau oherwydd agwedd llawer o bobl yn y gymdeithas ehangach a'r rhwystrau corfforol ac agweddol y maent yn eu hwynebu. Mae yna lawer iawn o ddeunydd darllen sy'n trafod manteision neu anfanteision addysg gynhwysol; yn wir, mae union ddiffiniad y gair 'cynhwysiant' yn destun cryn drafodaeth na fydd yn cael sylw mewn unrhyw fanylder yn y papur hwn.

Yr allwedd yw bod darpariaeth yn gallu darparu'n effeithiol ar gyfer yr unigolyn a bod cynhwysiant yn yr ystyr hwn yn golygu bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad i ddarpariaeth addysgol sy'n diwallu eu hanghenion. Pryder ac unigrwydd a theimladau o fethiant yw profiad byw plentyn neu berson ifanc ag ADY mewn lleoliad nad yw'n diwallu ei anghenion. Yr hawl sylfaenol sydd gan bob plentyn a pherson ifanc yw cael addysg sy'n diwallu eu hanghenion.

I grynhoi, wrth ystyried yr opsiwn hwn, bydd angen i'r Cyngor asesu ai datblygu model yr Ysgol Arbennig ymhellach yw'r cyfeiriad strategol y mae am ei gymryd neu ai'r model a ffefrir yw datblygu darpariaeth arbenigol sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd.

Ystyriaeth arall fyddai a theimlid bod maint yr ysgol yn peri problem. Byddai hon yn ysgol arbennig fawr, ond mae yna enghreifftiau o Ysgolion Arbennig yng Nghymru o faint tebyg ac yn fwy sy'n llwyddiannus iawn.

Ystyriaeth arall fyddai dichonoldeb a chost bosibl ysgol o'r fath. Dim ond yn dilyn astudiaethau dichonoldeb pellach a phe bai cynlluniau manwl yn cael eu datblygu y byddai'r rhain yn hysbys.

## 11. Opsiwn 6: Datblygu cynigion newydd i adeiladu un Ganolfan Arbenigol gynradd ac un Ganolfan Arbenigol uwchradd ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol (ADD), anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl) ac Anhwylder Sbectrwm Awtistig

Dewis arall yn lle datblygu Ysgol Arbennig fawr i ddarparu'r capasiti sydd ei angen ar Lanelli i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADDLl, ADD a CSA fyddai sefydlu dwy Ganolfan Arbenigol newydd, un ynghlwm wrth ysgol gynradd brif ffrwd ac un ynghlwm wrth ysgol uwchradd brif ffrwd.

Mae model o'r fath eisoes yn gweithio'n effeithiol mewn ardaloedd eraill yn Sir Gaerfyrddin ac mae cynlluniau lefel uchel wedi'u datblygu ar gyfer y Canolfannau newydd yn seiliedig ar brofiad blaenorol swyddogion o ddatblygu Canolfannau Arbenigol mewn ardaloedd eraill.

Byddai gan y Ganolfan Arbenigol Gynradd tua 100 o leoedd ac amcangyfrifir y byddai'n costio £17 miliwn i'w hadeiladu.

Byddai gan y Ganolfan Arbenigol Uwchradd tua 150 o leoedd ac amcangyfrifir y byddai'n costio £14 miliwn i'w hadeiladu.

Amcangyfrif o gyfanswm cost y ddwy Ganolfan yw £31 miliwn.

Rhaid pwysleisio mai amcangyfrif yw'r costau hyn. Dim ond yn dilyn astudiaethau dichonoldeb pellach a phe bai cynlluniau manwl yn cael eu datblygu y gellid darparu ffigur mwy cywir.

Byddai'n rhaid ceisio'r cyllid sydd ei angen i gefnogi'r cynllun drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r rhaglen hon, ac yn amodol ar i'r Cyngor symud ymlaen drwy fodel busnes pum achos Llywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth, byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu 75% o gost y cynllun a byddai'r Cyngor yn ariannu'r 25% sy'n weddill.

Byddai angen datblygu'r cynigion hefyd yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru a bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Fel y nodwyd yn flaenorol, yn unol â'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi'n helaeth mewn datblygu unedau ar safleoedd ysgolion prif ffrwd a Chanolfannau Arbenigol sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd.

Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae disgyblion na ellir diwallu eu hanghenion mewn darpariaeth Uned yn cael eu lleoli mewn Ysgol Arbennig ac mae hyn yn wir yn Llanelli ar gyfer disgyblion ag ADD ac ADDLl. Y tu allan i Lanelli, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu model amgen ac wedi buddsoddi'n helaeth mewn datblygu Canolfannau Arbenigol ar gyfer ADY sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd. Mae'r model amgen hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn; mae gan y Canolfannau Arbenigol a sefydlwyd y cyfleusterau i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY cymhleth iawn ac mae staff arbenigol yn darparu addysg o ansawdd uchel.

Mae llawer o anghenion y disgyblion yn debyg i rai'r disgyblion mwyaf cymhleth mewn unrhyw leoliad arbenigol arall yn y Sir, gan gynnwys Ysgol Heol Goffa. Nid oes disgwyl i bob disgybl gael mynediad i ddosbarthiadau prif ffrwd, lle mae cymhlethdod yr angen yn golygu na fyddai'n briodol i ddisgyblion wneud hynny, ac mae eu hanghenion yn cael eu diwallu yn y Canolfannau yn unig gan dimau o staff cefnogol a medrus iawn. Lle bo'n briodol, gall disgyblion gael mynediad i ddosbarthiadau prif ffrwd, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgolion prif ffrwd yn rheolaidd.

Mae disgyblion yn dilyn rhaglenni addysg unigol yn seiliedig ar gynllunio manwl iawn ac mae cynnydd yn cael ei olrhain yn agos ac mae cynlluniau datblygu unigol yn cael eu haddasu'n briodol. Mae disgyblion yn cael mynediad i amrywiaeth eang o brofiadau ac mae eu cyflawniadau'n cael eu dathlu'n llawn. Gellid disgrifio'r Canolfannau fel ysgolion arbennig ar raddfa llawer llai. Drwy arweinyddiaeth effeithiol ar lefel awdurdod lleol ac ysgol, mae’r mathau hyn o ddarpariaethau yn gallu darparu manteision ysgol arbennig, fel yr amlinellir ar dudalen 23, ynghyd â'r manteision ychwanegol y gall cael mynediad i gyfleusterau ysgol brif ffrwd eu cynnig.

Mae'n amlwg bod y Canolfannau Arbenigol a ddatblygwyd yn Sir Gaerfyrddin yn diwallu anghenion eu disgyblion sy'n ffynnu yn y lleoliadau hyn. Mae cydleoli'r darpariaethau hyn a'r rhyngweithio rhwng yr ysgol brif ffrwd a'r Ganolfan Arbenigol hefyd yn cefnogi ethos cynhwysol ac yn lleihau'r farn ystrydebol a byrbwyll sy'n gallu deillio o ddull mwy ar wahân.

Fodd bynnag, mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r model hwn ac mae arweinyddiaeth effeithiol yn allweddol i sicrhau ei lwyddiant. Mae angen i arweinwyr ysgol a'r Corff Llywodraethu groesawu'r lleoliad arbenigol yn llwyr a dathlu cyflawniadau a phrofiadau'r disgyblion, gan roi'r un gwerth arnynt â disgyblion yn y brif ffrwd.

Mae arweinwyr ysgol yn aml yn arbenigwyr prif ffrwd yn hytrach nag arbenigwyr ADY, ond drwy'r hyfforddiant a'r dysgu proffesiynol cywir gellir gwella eu sgiliau i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion eang. Mae'n hanfodol bod lleoliadau arbenigol iawn sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd yn cael eu harwain gan arbenigwyr ADY sydd hefyd yn aelodau o dîm uwch-arweinwyr yr ysgol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion y disgyblion yn cael eu diwallu, a bod y lleoliad arbenigol yn cael ei gynnwys ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud er budd yr ysgol gyfan ac nid y disgyblion prif ffrwd yn unig.

Mae rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY yn wynebu llawer o heriau ac mae angen iddynt gael eu cefnogi a theimlo'n rhan o addysg eu plentyn. Mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei gydnabod, a bod rhieni'n cael eu hystyried yn bartneriaid yn addysg eu plant. Mae'r Canolfannau Arbenigol sydd wedi cael eu datblygu mewn ardaloedd eraill yn Sir Gaerfyrddin yn gwneud hyn yn effeithiol ac mae gan ddisgyblion a rhieni/gofalwyr barch mawr tuag atynt.

I grynhoi, nid oes unrhyw reswm pam na allai Canolfannau Arbenigol fod yr un mor effeithiol yn Llanelli ag mewn mannau eraill yn Sir Gaerfyrddin o gael yr un lefel o fuddsoddiad, cynllunio ac arweinyddiaeth effeithiol, ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel ysgol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod gan Lanelli Ysgol Arbennig lwyddiannus iawn ar hyn o bryd sy'n cynnig darpariaeth o ansawdd uchel.

Mae gan rieni/gofalwyr barch mawr tuag at Ysgol Heol Goffa, ac mae gan lawer ohonynt gysylltiad emosiynol cryf iawn â'r ysgol a'r staff. Mae'r staff yn haeddiannol falch o'r gwaith y maent yn ei wneud gyda'r disgyblion ac mae ganddynt gysylltiad cryf iawn â'r ysgol. Mae'r gymuned gyfan wedi bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r ysgol newydd ac roeddent yn edrych ymlaen yn eiddgar at y posibilrwydd o symud i adeilad pwrpasol yr oeddent wedi helpu i'w greu.

Roedd pawb sy'n ymwneud ag Ysgol Heol Goffa ers 2017 yn disgwyl y byddai Ysgol Arbennig newydd yn cael ei hadeiladu ac roedd y cyhoeddiad ym mis Mai 2024 wedi

peri siom fawr. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i roi'r gorau i'r model o gael Ysgol Arbennig annibynnol yn Llanelli, byddai angen gwneud llawer iawn o waith gydag Uwch-arweinwyr, Llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, ac yn bwysicaf oll y plant a'r bobl ifanc, er mwyn sicrhau bod y newid yn cael ei ystyried yn un cadarnhaol a bod proses drosglwyddo ddidrafferth yn bosibl.

Nid yw'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Canolfannau Arbenigol yn cael ei deall yn dda y tu allan i'r darpariaethau hynny a swyddogion yr awdurdod lleol. Mae rhieni/gofalwyr y mae eu plant yn mynychu'r ysgol arbennig ar hyn o bryd yn pryderu y byddai llawer o fanteision Ysgol Arbennig yn cael eu colli pe bai'r ddarpariaeth ynghlwm wrth ysgol brif ffrwd. Y pryder yw y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei gwanhau ac na fyddai plant yn cael yr un profiad addysgol cadarnhaol. Mae'r rhain yn bryderon dealladwy a allai gael eu lleddfu pe bai gwaith y Canolfannau yn fwy hysbys. Beth bynnag fydd y penderfyniad ynghylch dyfodol darpariaeth ADY yn Llanelli, bydd yn hanfodol sicrhau yn y dyfodol bod gwaith y Canolfannau Arbenigol yn cael ei rannu'n ehangach gyda rhieni/gofalwyr, disgyblion a'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin.

## 12. Casgliad

Comisiynwyd yr adroddiad hwn yn dilyn y penderfyniad gan y Cyngor i beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig i adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Heol Goffa.
Yn sicr, nid yw'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Heol Goffa yn addas i'r diben ar hyn o bryd ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn.

Nid yw'r ffordd orau o gyflawni hyn yn syml a rhaid i'r Cyngor ystyried y pwysau ehangach yn y system, yn fwyaf arbennig yr angen i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer CSA, wrth benderfynu sut i symud ymlaen. Mae hon yn her enfawr, yn enwedig o ystyried y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel y nodwyd sawl tro yn yr adroddiad hwn, mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i adolygu digonolrwydd darpariaeth ADY yn eu hysgolion a'u hardal. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn nad yw'r trefniadau yn ddigonol mae'n rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r sefyllfa.

Mae'r opsiynau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn darparu ffyrdd posibl ymlaen i fynd i'r afael ag annigonolrwydd y ddarpariaeth a nodwyd. Bydd yr holl opsiynau yn gofyn am fuddsoddiad pellach gan yr awdurdod lleol ac o ystyried y pwysau ariannol, wrth ystyried yr opsiynau, mae'n hanfodol sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf cost-effeithiol a chynaliadwy i ateb y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Canmolodd adroddiad Estyn ym mis Gorffennaf 2023 yr awdurdod lleol am ddarparu ystod addas o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, ac am fuddsoddi'n sylweddol mewn datblygu darpariaeth ychwanegol pan fo angen. Pa bynnag benderfyniad a wneir ynghylch darpariaeth ADY yn Llanelli yn y dyfodol, bydd yn hanfodol cael strategaeth barhaus i sicrhau bod anghenion pob disgybl ag ADY, yn enwedig y rhai â CSA, yn cael eu diwallu'n effeithiol ledled Sir Gaerfyrddin, a thrwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd angen i'r dull strategol hwn archwilio'r holl opsiynau hyfyw ar gyfer cynyddu capasiti a gwella ansawdd gwasanaethau cymorth i ddisgyblion ag ADY a'r rhai â CSA yn benodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu darpariaeth arbenigol ond hefyd buddsoddi mewn hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff addysgu, datblygu rhaglenni addysgol wedi'u teilwra, a sicrhau bod seilwaith ffisegol ysgolion yn ffafriol i ddysgu a llesiant pob disgybl.